Iorwerth – E, BL Add. 14931, f. 12r

Naw Tafodiog

Llyma y dechreu kyureithyeu y wlat. Kyntaw yu nau tauodyauc. Sew yu y rei hynny: argluyd y rug y deu was, efeiryat y rug y dev uynach, tat y rug y deu uab. O byd un o'r rey rydywedassam ny uchot ny mynno dody y pen y tri thauodyauc, a'r llall yn y uynny, kyureith a eirch y dodi. Pedweryd, ynat ar y uraut. O deruyd y dyn o'e dvy bleit y bu y gyureith y rygthunt gwadu y uraut, a'r llall yn y hadew, geir yu geir yr ynat yna ar y uraut. Pymhet yu mach ar y uechniaeth, o deruyd y adew, a'r neill yn dyweduyt bot y uechniaeth ar beth maur, a'r llall ar beth bychan, can adewuyd y mach credadvy yu pahar y roet, a chan a dyweit ew, ny ellyr y wadu. Chwechet yu rodyat ar y rod; sew ual y mae, o deruyd y dyn rody peth a deudyn yn dyweduyt, 'Ymy y roet', 'Nac ew,' heb y llall, 'ymy', geir yu y eir padiv y rodes. Seithuet yu morvyn ar y moruyndaut; o deruyd y vr duyn moruyn lathlut a gwedy y del y'r difeith a hi a chynn bot achaus ydau a hy, a gouyn ydau, 'Beth a rody di ymy am hyn?' a rody ohanau ew beth ydy hy, a gwedy hynny bot yn edyuar ganthau ew, cet as gwato ew, os adew hy, geir yu y geir hi yna. Vythuet yu bugeil trewgord; o deruyd llad lludyn y dyn o ysgrybyl perchennogyon ereill, am hynny geyr yu geir y bugeil pa eydyon a'y lladaud. Nauued yu lleydyr urth y groc ar y gydladron. O deruyd ydau ew dyweduyt bot dyn yn gytleidyr ac ew am y lledrat y dyenydiir, a'y gadarnhau ohanau y'r agheu y athyv [Dyu] ydau ac y mae ynteu yn mynet, geyr yu y eir ew yna.

Iorwerth – E

Naw Tafodiog

Yma y dechrau cyfreithiau'r wlad. Cyntaf yw'r naw tafodiog. Dyma yw'r rhai hynny: arglwydd rhwng ei ddau was, offeiriad rhwng ei ddau fynach, tad rhwng ei ddau fab. Os bydd un o'r rhai a ddywedasom ni uchod na ddymuno ei ddodi ym mhen y tri thafodiog, a'r llall yn ei fynnu, y mae'r gyfraith yn gorchymyn ei ddodi. Pedwerydd, ynad ar ei farn. Os yw'n digwydd i ddyn o'i ddwy blaid y bu cyfraith rhyngddynt wadu ei farn, a'r llall yn ei haddef, gair yw gair yr ynad yna ar ei farn. Pumed yw mach ar ei fechnïaeth, os yw'n digwydd ei haddef, a'r naill yn dweud bod ei fechnïaeth ar beth mawr, a'r llall ar beth bychan, gan yr addefwyd y mach credadwy yw ef ar ba beth y'i rhoddwyd, a beth bynnag a ddywed ef, ni ellir ei wadu. Chweched yw rhoddwr ar ei rodd; dyma sut y mae, os yw'n digwydd i ddyn roi rhywbeth a dau ddyn yn dweud, 'I mi y'i rhoddwyd', 'Nage,' ebe'r llall, 'i mi', gair yw ei air i bwy y rhoddodd ef. Seithfed yw morwyn ar ei morwyndod; os yw'n digwydd i ŵr ddwyn morwyn yn ddirgel ac wedi iddo ddod â hi i'r tir diffaith a chyn iddo gael cyfathrach â hi, a [hithau'n] gofyn iddo, 'Beth a roddi di i mi am hyn?' ac yntau'n rhoddi rhywbeth iddi hi, ac wedi hynny bod yn edifar ganddo ef, er iddo ei wadu, os bydd hi'n addef, gair yw ei gair hi yna. Wythfed yw bugail trefgordd; os yw'n digwydd i anifail dyn gael ei ladd gan anifeiliaid perchnogion eraill, am hynny gair yw gair y bugail ar ba anifail a'i lladdodd. Nawfed yw lleidr wrth y grocbren yn erbyn ei gydladron. Os yw'n digwydd iddo ef ddweud bod dyn yn gyd-leidr ag ef am y lladrad y dienyddir ef drosto, ac iddo gadarnhau hynny ar yr angau yr aeth Duw iddo ac y mae yntau'n mynd iddo, gair yw ei air ef yna.

Blegywryd – I, Peniarth 38, f. 16r
Sarhaed, galanas a gwerth

Y neb a dywetto ar arall sarhau y gorff heb achwanec, os gwatta, rodet y lw ehunan. Or enwir gwaet kyny weler neu welet cleis arnaw, rodet y lw ar y tryded, kanys yn lle tyston y kynhelir y gwaet neu y cleis. Y neb a watto ymlad lle ny lader neb, herwyd meint y sarhaet y dyry y reith. Or gwneir anaf ar dyn y trwy ymlad, or gwedir, llw degwyr a rodir. Or byd gwaet neu gleis, nyt amgen gwaet o pen hyt gwll, o lw tri dyn y gwedir; o pen hyt wregys, o lw chwech; o pen hyt lawr, o lw naw nyn y gwedir, ac velly y gwedir cleis a triccyo tri naw niwarnawt. Or tereu dyn kaeth dyn ryd, trycher y llaw deheu idaw neu talet arglwyd y kaeth sarhaet y dyn. Ergyt cryman yw nawd kaeth. Ny byd godor yn reith alltut lle ny pherthyno reith gwlat arnaw, kyny thygho dynyon gyt ac ef, namyn roi y lw ehunan yghyfeir pop dyn a dylyei tyghu gyt ac ef bei kenedylawc.

Blegywryd – I
Sarhaed, galanas a gwerth

Pwy bynnag a fydd yn cyhuddo person arall o sarhau ei gorff heb fwy na hynny, os gwada, rhodded ei lw ei hunan. Os enwir gwaed er na welir hynny neu weld clais arno, rodded ei lw yn un o dri, oherwydd yn lle tystion yr ystyrir y gwaed neu'r clais. Pwy bynnag a wado ymladd lle na ladder neb, fe ddyry ei raith yn ôl maint ei sarhaed. Os gwneir anaf ar ddyn trwy ymladd, os gwedir hynny, rhoddir llw deg gŵr. Os bydd gwaed neu glais, sef gwaed o ben hyd at y fron, â llw tri dyn y'i gwedir; o ben hyd at y gwregys, â llw chwech; o ben hyd at y llawr, â llw naw nyn y'i gwedir, ac yn yr un modd y gwedir clais a barhao am dri naw niwrnod. Os bydd dyn caeth yn taro dyn rhydd, torrer ei law dde neu taled arglwydd y dyn caeth sarhaed y dyn. Tafliad cryman yw nawdd dyn caeth. Ni bydd unrhyw ddiffyg yn rhaith alltud lle na bo rhaith gwlad yn berthnasol iddo, er na thyngo dynion gydag ef, ond dylai roi ei lw ei hun ar gyfer pob dyn a ddylai dyngu gydag ef petai'n ŵr a chenedl ganddo.

Cyfnerth – V, Harley 4353, f. 21r
Caethion

Dewisset pawb y vreint: ae wrth vreint y penkenedyl, ae wrth vreint y tat, ae wrth vreint y swyd. Pvnt a hanher yw gwerth kaeth telediw or henuyd o'r tu draw y'r mor. Or byd anafus hagen, neu ry hen, neu ry ieuanc, nyt amgen no llei noc vgein mlwyd, punt a tal. Or henuyd o'r tu yma y'r mor heuyt, punt a tal kanys ehunan a lygrwys y vreint o vynet yn gyfloc gwr o'e vod. Or tereu dyn ryd dyn kaeth, talet idaw deudec keinhawc: whech dros teir kyfelin o vrethyn gwyn tal pentan y wneuthur peis idaw wrth lad eithin; teir dros lawdwr; vn dros kuaraneu a dyrnuoleu; vn dros wdyf neu dros uwell os koetwr vyd; vn dros raff deudec kyfelinyawc. Or tereu dyn kaeth dyn ryd, jawn yw trychu y llaw deheu idaw neu talet arglwyd y kaeth sarhaet y dyn. Nawd kaeth yw hyt y byryo y kryman. Y neb a gyttyo a gwreic kaeth heb ganhat y harglwyd, talet deudec keinhawc y arglwyd y gaeth dros pop kyt. Y neb a ueichocco gwreic kaeth a uo ar gyfloc, rodet arall yn y lle hyt pan agho; ac yna paret ef y'r etiued ac aet y gaeth y lle. Ac or byd marw y ar yr etiued, talet y neb a'e beichoges y gwerth kyfreith o'e harglwyd.

Cyfnerth – V
Caethion

Dewised pawb ei fraint: naill ai yn ôl braint ei bencenedl, neu yn ôl braint ei dad, neu yn ôl braint ei swydd. Punt a hanner yw gwerth dyn caeth di-fefl os bydd yn hanu o'r tu draw i'r môr. Os bydd yn anafus, fodd bynnag, neu'n rhy hen, neu'n rhy ifanc, hynny yw yn llai nag ugain mlwydd, punt yw ei werth. Os bydd yn hanu o'r ochr yma i'r môr hefyd, punt yw ei werth oherwydd ef ei hun a lygrodd ei fraint trwy fynd yn ŵr cyflog o'i fodd. Os bydd dyn rhydd yn taro dyn caeth, taled iddo ddeuddeg ceiniog: chwech ar gyfer tair cyfelin o frethyn gwyn tâl pentan i wneuthur siaced iddo ar gyfer torri eithin; tair ar gyfer trowsus; un ar gyfer botasau a menig trymion; un ar gyfer cryman neu ar gyfer bwyell os bydd yn goediwr; un ar gyfer rhaff yn mesur deuddeg cyfelin. Os bydd dyn caeth yn taro dyn rhydd, iawn yw torri ei law dde neu taled arglwydd y dyn caeth sarhaed y dyn [rhydd]. Nawdd dyn caeth yw cyn belled ag y gall daflu ei gryman. Pwy bynnag a fyddo'n cael cyfathrach rywiol â gwraig gaeth heb ganiatâd ei harglwydd, taled ddeuddeg ceiniog i arglwydd y wraig gaeth dros bob cyfathrach. Pwy bynnag a wnelo wraig gaeth a fo ar gyflog yn feichiog, rhodded un arall yn ei lle hyd nes yr esgoro; ac yna darpared ef ar gyfer yr etifedd ac aed y wraig gaeth yn ôl i'w lle. Ac os bydd hi farw wrth esgor ar yr etifedd, taled y sawl a'i gwnaeth yn feichiog ei gwerth cyfraith i'w harglwydd.